# Cynllun busnes 2026–27
# Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi

Ebrill 2026

# Cynnwys


Cyflwyniad ... 3

Adran 1 Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud ... 5

Adran 2 Ein cynllun busnes ar gyfer 2026–27 ... 6

Adran 3 Ein hadnoddau ... 7

Adran 4 Arolygiaeth annibynnol ... 8

Adran 5 Arolygiaeth ddylanwadol ... 12

Adran 6 Arolygiaeth atebol ... 15

Adran 7 Arolygiaeth abl ... 17

Adran 8 Arolygiaeth gydweithredol ... 20

Atodiad I Rhestr o amcanion strategol ... 23

# Cyflwyniad

Mae ein cynllun busnes ar gyfer 2026–27 wedi’i osod yn erbyn cefndir o heriau cyson ar draws y system cyfiawnder troseddol, ynghyd â newidiadau o ran mewnfudo.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i adrodd ar ddirywiad mewn amodau yng ngharchardai Cymru a Lloegr. Yn wir, rydym wedi nodi dirywiad mewn diogelwch, sy’n gysylltiedig â lefelau uchel iawn o ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon a lefelau annerbyniol o droseddu, a hynny yn y carchardai diogelwch uchel hyd yn oed. Mae cynnydd mewn trais nid yn unig yn rhoi carcharorion mewn perygl o niwed difrifol, ond staff hefyd. Mae'n tanseilio’n sylweddol y cyfle i feithrin perthnasoedd dibynadwy sy’n cefnogi’r gwaith o adsefydlu carcharorion. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn yr ystâd ieuenctid, lle’r oedd ein hadolygiad thematig yn tynnu sylw at achosion a chanlyniadau pellgyrhaeddol diffyg ymddiriedaeth mewn perthnasoedd. Rwyf hefyd yn dal yn bryderus iawn fod y gwasanaeth carchardai yn methu darparu addysg, gwaith a hyfforddiant digonol. Mae’r toriadau mewn termau real i gyllidebau addysg carchardai yn creu hyd yn oed mwy o risg na fydd dynion a menywod yn datblygu’r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyfrannu at gymdeithas ar ôl cael eu rhyddhau.

Pennir llawer o’r diwygiadau sy’n cael eu cyflwyno i’r gwasanaethau carchardai a phrawf gan gapasiti’r ystâd ac ymdrechion i reoli poblogaeth y carchardai, sy'n cynyddu o hyd. Mae pasio’r Ddeddf Dedfrydu yn golygu newidiadau sylweddol i’r ffordd y rheolir amser pobl yn y ddalfa, y broses o’u rhyddhau a’r amodau ar gyfer eu galw’n ôl. Mae paratoi pobl ar gyfer dychwelyd yn ddiogel i’r gymuned yn rhan hanfodol o gyfrifoldebau carchardai i ddiogelu’r cyhoedd, ac yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn ceisio deall a dangos tystiolaeth o effaith y newidiadau. Ar yr un pryd, bu datblygiadau sylweddol mewn perthynas â chadw mewnfudwyr hefyd.

Mae ein cynllun busnes yn rhoi pwyslais ar sicrhau ein bod yn gallu darparu’r lefel o graffu y dylai’r cyhoedd a’r senedd ei disgwyl, gan wneud y defnydd gorau o’r adnoddau sydd ar gael i ni. Byddwn yn cynnal dros 50 o arolygiadau llawn o leoliadau cadw’n gaeth, gan gynnwys carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, cystodaeth llys a chadw mewnfudwyr, a hyd at 20 adolygiad annibynnol o gynnydd. Gan gydnabod yr angen i gyrff cyhoeddus weithredu mor effeithlon â phosibl, mae’r cynllun hefyd yn cynnwys cyflwyno newidiadau i’r ffordd rydym yn cyhoeddi ein hadroddiadau. Drwy wneud hyn, byddwn yn gallu gweithio mewn ffyrdd mwy hyblyg a chynnil, gan sicrhau bod ein canfyddiadau’n gliriach ac yn fwy hygyrch ar yr un pryd.

Rwy'n cydnabod y baich ychwanegol y mae arolygiadau'n ei olygu i'r rheini sydd eisoes yn gwneud swyddi heriol mewn amgylchiadau anodd. Mae'r Arolygiaeth wedi ymrwymo o hyd i wneud y broses arolygu mor dryloyw, mor deg ac mor adeiladol â phosibl. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr pa mor barod yw staff ym mhob sefydliad i weithio gyda'n timau arolygu, ac am eu cyfraniadau adeiladol.

**Charlie Taylor**
**Prif Arolygydd Carchardai Ei Fawrhydi**

# Adran 1 Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

## Ein diben

Rydym yn arolygiaeth annibynnol sy'n cael ei harwain gan Brif Arolygydd Carchardai Ei Fawrhydi. Rydym yn craffu ar yr amodau ar gyfer carcharorion ac unigolion eraill sy'n cael eu cadw’n gaeth – a sut maent yn cael eu trin. Yna, byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau.

Rydym yn helpu i wneud yn siŵr bod lleoliadau’n drugarog, yn ddiogel, yn barchus ac yn helpu i baratoi pobl ar gyfer cael eu rhyddhau.

Rydym yn gwneud hynny drwy gynnal arolygiadau annibynnol o garchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel a llysoedd yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â lleoliadau cadw mewnfudwyr ledled y DU.

Rydym yn cyhoeddi adroddiadau i roi gwybod i bobl am ein canfyddiadau ac yn gwneud yn siŵr bod y llywodraeth, a’r rheini sy’n rhedeg y lleoliadau hyn, yn cael eu dal i gyfrif. Rydym hefyd yn nodi ac yn rhannu enghreifftiau o arferion cadarnhaol i helpu arweinwyr i ddysgu gan sefydliadau eraill tebyg.

Ein rôl ni yw taflu goleuni ar yr hyn sydd angen newid, ond ni allwn ei orfodi. Mater i’r arweinwyr yw ystyried y ffordd orau o ymateb i’n pryderon a defnyddio eu hadnoddau a’u harbenigedd i ddod o hyd i atebion. Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi a’r Swyddfa Gartref weithio gyda sefydliadau i gefnogi’r cynnydd hwn.

## Ble rydym yn cynnal arolygiadau a sut

Eglurir yn fanylach ble rydym yn cynnal arolygiadau a sut yn ein Fframwaith Arolygu ac yn ein Disgwyliadau, sy’n nodi’r meini prawf rydym yn eu defnyddio i arolygu carchardai a mathau eraill o leoliadau lle mae unigolion yn cael eu cadw’n gaeth. Maent yn seiliedig ar safonau hawliau dynol rhyngwladol ac yn cael eu defnyddio i archwilio pob agwedd ar fywyd mewn lleoliadau o’r fath.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am waith yr Arolygiaeth, ewch i’n gwefan: hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk

# Adran 2 Ein cynllun busnes ar gyfer 2026–27

Mae’r cynllun busnes hwn yn disgrifio’r gwaith sydd gennym ar y gweill ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae wedi’i osod yn erbyn y prif risgiau lefel uchel sy’n gysylltiedig â’n gwaith, yr adnoddau sydd ar gael a rhagdybiaethau cyllido.

Mae’r rhan fwyaf o weithgareddau’r Arolygiaeth yn ymwneud â chyflawni ein rhaglen arolygu graidd a chasglu a dadansoddi gwybodaeth sy’n ein helpu i gyflawni ein cyfrifoldebau’n effeithiol.

Mae’r gwaith o gyflawni’r holl weithgarwch a nodir yn y cynllun hwn yn cael ei fonitro a’i archwilio’n fewnol gan ein strwythurau llywodraethu presennol. Bydd diweddariadau chwarterol ar gynnydd yn erbyn y cynllun yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan ac yn cael eu rhannu gyda’r Weinyddiaeth Gyfiawnder, sef yr adran sy'n ein noddi.

Dyma ein prif fforymau llywodraethu:

**Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol:** Mae’r Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter ac mae’n cael ei gadeirio gan ein Prif Arolygydd. Mae’r Bwrdd yn adolygu metrigau perfformiad allweddol a’n cofrestr risg gorfforaethol, yn cymeradwyo rhaglenni gwaith newydd ar lefel strategol ac yn craffu ar ein perfformiad ariannol.

**Bwrdd Cyflawni:** Mae’r Bwrdd Cyflawni yn cyfarfod bob mis ac mae’n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Arolygydd. Mae’n goruchwylio’r dasg o wneud yn siŵr bod ein rhaglen arolygu yn cael ei chyflawni'n effeithiol.

Mae ein rhaglen arolygu ar gyfer 2026–27 a’r fframwaith arolygu y byddwn yn ei ddefnyddio yn destun ymgynghoriad statudol yn unol â gofynion Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 a.28. Rydym yn ddiolchgar am bob ymateb, a byddant yn cael eu hystyried a’u hymgorffori yn ein cynlluniau busnes bob blwyddyn.

Yn y cynllun hwn, disgrifir gwaith yr Arolygiaeth o dan bum thema, sy’n deillio o’n gwerthoedd fel sefydliad:

1. Arolygiaeth annibynnol
2. Arolygiaeth ddylanwadol
3. Arolygiaeth atebol
4. Arolygiaeth abl
5. Arolygiaeth gydweithredol

# Adran 3 Ein hadnoddau

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydym yn rhagweld mai dyma fydd ein cyllideb ar gyfer 2025–26[1]:

| | |
|---|---|
| Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (cyllid craidd) | £5,787,540 |
| Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – lleoliadau cadw plant | £143,245 |
| Y Weinyddiaeth Cyfiawnder – canolfannau hyfforddi diogel | £29,891 |
| Y Swyddfa Gartref – lleoliadau cadw mewnfudwyr | £454,339 |
| Costau arolygu awdurdodaethau eraill (gallai'r rhain newid) | £80,695 |
| **Cyfanswm** | **£6,495,710** |

Ar ben hynny, drwy wahoddiad, bydd Prif Arolygydd Carchardai Ei Fawrhydi yn cynnal arolygiadau o'r cyfleusterau mewn lleoliadau cadw a lleoliadau a ddefnyddir fel dalfa filwrol, carchardai yng Ngogledd Iwerddon (ar ran Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon), carchardai ar Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel a rhai carchardai tramor eraill mewn awdurdodaethau sydd â chysylltiadau â'r DU. Codir tâl am y rhain.

Ym mis Mawrth 2026, roedd 81 aelod o staff a swyddogion cyswllt a oedd yn derbyn ffi yn yr Arolygiaeth. Daw ein staff a'n gweithwyr cyswllt o amrywiaeth o gefndiroedd proffesiynol. Er bod gan lawer brofiad o weithio mewn carchardai, mae gan eraill gefndiroedd ym maes gwaith cymdeithasol, y gwasanaeth prawf, y gyfraith, cyfiawnder ieuenctid, gofal iechyd a thriniaeth ar gyfer cyffuriau, ymchwil gymdeithasol a pholisi. Mae gennym adran ysgrifenyddol fechan sy'n rhoi cymorth ym maes cyllid, adnoddau dynol ac arolygu, cyfathrebu, cyhoeddiadau, polisi a chydlynu NPM.

[1] Gall pob ffigur newid.

# Adran 4 Arolygiaeth annibynnol

Byddwn yn cyflawni ein dyletswydd statudol i adrodd yn gywir, yn ddiduedd ac yn gyhoeddus ynghylch amodau unigolion sydd mewn lleoliadau cadw a sut maent yn cael eu trin. Bydd ein dull gweithredu sy'n seiliedig ar werthoedd, ein methodoleg a'n disgwyliadau annibynnol yn ein helpu i sicrhau bod safonau hawliau dynol yn cael eu cynnal a bod canlyniadau i unigolion sydd mewn lleoliadau cadw am gyfnod yn gwella ar draws y gwahanol leoliadau cadw rydym yn eu harolygu.

## Amcan 1: Byddwn yn darparu rhaglen o arolygiadau annibynnol sy'n cwmpasu pob un o'n meysydd cyfrifoldeb.

### Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2026–27

- Yn 2026–27, byddwn yn darparu rhaglen o arolygiadau annibynnol o fwy na 70 o sefydliadau, ac rydym yn disgwyl i'r rhain gynnwys y canlynol.[2]

| | Sefydliadau sy'n dal oedolion | Sefydliadau sy'n dal plant | Lleoliadau cadw mewnfudwyr | Cystodaeth llys |
|---|---|---|---|---|
| Arolygiadau dirybudd | 37<br><br>2 gyfleuster cadw milwrol | 1 | 8 | 3 ardal llys |
| Adolygiadau annibynnol o gynnydd | 15–20 | 4 | 0 | |
| Ymweliadau sicrwydd | 0 | 1 | 0 | |

- Ar gyfer pob arolygiad, byddwn yn cyhoeddi adroddiad llawn o fewn 14 wythnos ar gyfer arolygiadau llawn neu bum wythnos ar gyfer adolygiadau annibynnol o gynnydd.
- Byddwn yn cyhoeddi fframwaith arolygu cyfredol sy'n cefnogi'r rhaglen hon.
- Byddwn yn diweddaru ein Disgwyliadau ar gyfer cystodaeth plant, cyfleusterau cadw milwrol a thriniaeth deg a chynhwysiant ar draws pob lleoliad lle caiff unigolion eu cadw. Lle bo'n berthnasol, byddwn hefyd yn diweddaru cwestiynau ein harolwg i adlewyrchu unrhyw newidiadau.
- Byddwn yn creu fideo byr i'w ddefnyddio mewn carchardai sy'n cyflwyno ein harolygiadau ac yn egluro ein hannibyniaeth. Bydd hyn yn rhoi gwybod i garcharorion am ein harolwg ac yn eu hannog i siarad â'r tîm arolygu.

---

[2] Mae ein rhaglen arolygu yn seiliedig ar asesiad deinamig o risg. Mae hyn yn golygu y gallai ein rhaglen arfaethedig newid rhywfaint yn ystod y flwyddyn, sy'n effeithio ar gyfanswm y gwahanol fathau o arolygiadau a gyflawnir.

**Sut byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno**

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Cynnydd y rhaglen | Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Bob chwarter |
| | Cyfarfodydd Sicrwydd Busnes Tîm Nawdd y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Dwywaith y flwyddyn |
| Darparu adnoddau ar gyfer y rhaglen | Bwrdd Cyflawni | Bob mis |
| Prydlondeb adroddiadau | Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Bob chwarter |
| Adolygu Disgwyliadau | Bwrdd Cyflawni | Bob mis |
| | Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Bob chwarter |

## Amcan 2: Byddwn yn datblygu ac yn adrodd ar raglen o arolygiadau thematig sy’n sicrhau gwell canlyniadau i unigolion sy’n cael eu cadw'n gaeth.

**Beth fyddwn ni’n ei gyflawni yn 2026–27**

- Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar brofiadau plant sydd wedi cael eu remandio i’r ddalfa am gyfnodau byr. Byddwn yn datblygu adolygiad thematig pellach ar gymorth i blant yn y ddalfa sydd â’r angen mwyaf.
- Byddwn yn cyhoeddi adolygiad thematig o brofiadau menywod mewn lleoliadau cadw mewnfudwyr.
- Byddwn yn parhau i hyrwyddo canfyddiadau ein hadolygiadau thematig ar waith i gynnal cysylltiadau teuluol tra bydd pobl yn y carchar ac ar waith a hyfforddiant mewn carchardai.
- Bydd ein Bwrdd Thematig yn adolygu ac yn datblygu cynigion ar gyfer meysydd arolygu thematig newydd drwy gydol y flwyddyn ar sail gwybodaeth sy’n dod i’r amlwg neu feysydd risg.

**Sut byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno**

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Datblygu a chyflwyno’r rhaglen | Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Bob chwarter |
| Darparu adnoddau ar gyfer y rhaglen | Bwrdd Cyflawni | Bob mis |

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Prydlondeb adroddiadau | Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Bob chwarter |

## Amcan 3: Byddwn yn parhau i sicrhau gwelliannau yn y ffordd y mae’r sefydliadau rydym yn eu harolygu yn cael eu harwain.

### Beth fyddwn ni’n ei gyflawni yn 2026–27

- Byddwn yn cyflwyno tair sesiwn wybodaeth i lywodraethwyr newydd, gan adeiladu ar lwyddiant digwyddiadau a gyflwynwyd yn 2026–27. Bydd y rhain yn ymdrin â’n Disgwyliadau, yr adroddiad hunanasesu a’r defnydd o ddata i ysgogi gwelliant. Byddwn hefyd yn rhoi cyfle i lywodraethwyr newydd ofyn cwestiynau, rhannu sylwadau neu godi pryderon am y broses arolygu. Bydd y sesiynau wedi’u gwasgaru ar draws y flwyddyn.
- Byddwn yn parhau i arolygu ac adrodd ar arweinyddiaeth pob sefydliad a arolygir yn erbyn ein disgwyliadau ar gyfer arweinyddiaeth.

### Sut byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Datblygu digwyddiadau cynefino newydd | Bwrdd Cyflawni | Bob mis |
| Ymgorffori disgwyliadau cyfredol ar gyfer Arweinyddiaeth | Bwrdd Cyflawni<br>Cyfarfodydd y Fforwm Polisïau | Bob mis<br>Bob chwarter |

## Amcan 4: Byddwn yn parhau i ddiogelu unigolion sy’n cael eu cadw'n gaeth.

### Beth fyddwn ni’n ei gyflawni yn 2026–27

- Byddwn yn parhau i ddiogelu’r rhai sy’n cael eu cadw’n gaeth rhag sancsiynau neu gosbau sy’n deillio o gyfathrebu ag Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi, neu rywun sy’n gweithredu ar eu rhan, yn unol â’n polisi sancsiynau.
- Byddwn yn parhau i weithredu ar unwaith os byddwn yn canfod pryderon yn ymwneud â diogelu, boed y rheini’n cael eu derbyn yn ystod arolygiad neu drwy ohebiaeth, yn unol â phrotocolau diogelu Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi.
- Bydd arweinwyr diogelu o bob rhan o’r sefydliad yn parhau i gyfarfod i adolygu’r holl bryderon diogelu bob chwarter i sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi ac y gweithredir arnynt mewn ffordd gyson, gan nodi unrhyw dueddiadau neu feysydd i’w harchwilio ymhellach.

**Sut byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno**

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Adolygu’r cofnod o bryderon diogelu neu sancsiynau a’r camau a gymerwyd | Bwrdd Cyflawni | Bob mis |
| | Y Tîm Ysgrifenyddol | Bob mis |
| | Cyfarfod diogelu | Bob chwarter |
| | Cyfarfod sancsiynau | Bob chwarter |

# Adran 5 Arolygiaeth ddylanwadol

Byddwn yn arolygu ac yn adrodd mewn ffordd agored, gan herio'r rhai sy'n gyfrifol am y sefydliadau a arolygir mewn ffordd adeiladol a sensitif. Byddwn yn sicrhau bod tystiolaeth o'n harolygiadau yn sail i bolisi ac ymarfer ac yn cyfrannu at wella canlyniadau i'r rheini sy'n cael eu cadw yn y ddalfa. Bydd ein strategaeth gyfathrebu yn sicrhau bod canfyddiadau ein harolygiadau ar gael i amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd.

## Amcan 5: Byddwn yn parhau i ddatblygu ein harbenigedd a'n gwybodaeth ganolog ar y prif faterion sy'n effeithio ar unigolion sy'n cael eu cadw'n gaeth.

### Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2026–27

- Byddwn yn cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2026–27, sy'n dwyn ynghyd ddadansoddiad o ganfyddiadau arolygon ac arolygiadau o bob rhan o'r flwyddyn adrodd. Bydd ein fforymau polisi yn parhau i gyfarfod bob chwarter i adolygu gwybodaeth ar draws ein pedwar prawf ar gyfer carchardai iach, sef diogelwch, parch, gweithgarwch pwrpasol a pharatoi ar gyfer rhyddhau.
- Byddwn yn ymateb i ymgynghoriadau ar bolisïau cyhoeddus perthnasol neu alwadau am dystiolaeth gan bwyllgorau seneddol ac ymchwiliadau cyhoeddus, gan ddefnyddio ein sylfaen dystiolaeth a'n dealltwriaeth unigryw.
- Byddwn yn cynnal diwrnodau datblygu chwarterol i'r holl staff rannu gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg a sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio'n gyson i gyfrannu at arferion arolygu gwell.
- Byddwn yn adolygu ein system a'n prosesau rheoli ffeiliau corfforaethol i sicrhau bod ein cofnodion yn cael eu rheoli mor ddiogel ac effeithlon â phosibl.

### Sut byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Nodi themâu sy'n dod i'r amlwg a rhannu gwybodaeth | Fforymau Polisi | Bob chwarter |
| Goruchwylio diwrnodau datblygu | Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Bob chwarter |
| Datblygu Adroddiad Blynyddol | Fforymau Polisi<br><br>Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Bob chwarter<br><br>Bob chwarter |

## Amcan 6: Byddwn yn ymestyn cyrhaeddiad canfyddiadau ein harolygiadau i sicrhau mwy o graffu a newid cadarnhaol.

### Beth fyddwn ni’n ei gyflawni yn 2026–27

- Byddwn yn dechrau cyhoeddi adroddiadau ar arolygiadau ac Adolygiadau Annibynnol o Garchardai a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ar ffurf HTML, felly bydd yn haws chwilio drwyddynt a byddant yn fwy hygyrch i fwy o lawer o ddefnyddwyr. Ar yr un pryd, byddwn yn rhoi newidiadau ar waith i wneud yr adroddiadau hyn yn gliriach ac yn fwy cryno er mwyn ei gwneud yn haws i’n rhanddeiliaid ddeall ein canfyddiadau a gweithredu arnynt.
- Byddwn yn parhau i feithrin perthynas effeithiol â gohebwyr a darparwyr allweddol i sicrhau bod canfyddiadau ein harolygiadau’n cael sylw eang a’u bod yn cyrraedd amrywiaeth o gynulleidfaoedd allanol.
- Byddwn yn parhau i feithrin perthynas effeithiol â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y rheini rydym yn eu harolygu, yn ogystal â rhanddeiliaid perthnasol eraill sy’n ymwneud â lleoliadau cadw.
- Byddwn yn cyhoeddi podlediad misol i hyrwyddo canfyddiadau ein harolygiadau a’n dealltwriaeth o rai o’r prif faterion sy'n ymwneud â lleoliadau cadw. Bydd y podlediad yn cael ei gynhyrchu’n fewnol gan ein tîm cyfathrebu.
- Byddwn yn parhau i gynnal presenoldeb gweithredol ar bob sianel cyfryngau cymdeithasol graidd, ac yn cynyddu ein presenoldeb ar Instagram i’n helpu i ymgysylltu ag ystod ehangach o gynulleidfaoedd, gyda chynnwys sy’n briodol ar gyfer y llwyfan hwnnw.

### Sut byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Adroddiadau HTML, podlediad ac Instagram | Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Bob chwarter |
| | Cyfarfod cynllunio strategol ar gyfer cyfathrebu | Bob chwarter |
| Sylw yn y cyfryngau | Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Bob chwarter |

## Amcan 7: Byddwn yn nodi ac yn rhannu arferion cadarnhaol i helpu i sicrhau canlyniadau gwell.

### Beth fyddwn ni’n ei gyflawni yn 2026–27

- Byddwn yn chwilio am enghreifftiau o arferion cadarnhaol nodedig ym mhob arolygiad. Bydd pob enghraifft yn cael ei chynnwys yn ein hadroddiadau terfynol.
- Byddwn yn parhau i rannu’r holl arferion cadarnhaol nodedig ar ein gwefan a drwy ein sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol a byddwn yn hyrwyddo adroddiadau arolygu cadarnhaol mor eang â phosibl.

- Byddwn hefyd yn chwilio am enghreifftiau o arferion cadarnhaol yn ystod gwaith thematig, gan rannu enghreifftiau lle bo hynny'n berthnasol yn ein hadroddiadau thematig terfynol.
- Byddwn yn defnyddio dyddiadau pwysig ar y calendr cyfryngau cymdeithasol  i dynnu sylw at ganfyddiadau cadarnhaol ac enghreifftiau o arferion cadarnhaol nodedig.

**Sut byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno**

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Trafod arferion cadarnhaol yn ôl ardal carchar iach | Fforymau Polisi<br>Bwrdd Cyflawni | Bob chwarter<br>Bob mis |

# Adran 6 Arolygiaeth atebol

Byddwn yn rheoli ein hadnoddau’n effeithlon ac yn ymgymryd â’n gwaith mewn modd proffesiynol. Byddwn yn rhoi cyfrif am ein perfformiad ac yn parhau i ddangos gwerth am arian.

## Amcan 8: Byddwn yn dangos dulliau effeithiol o reoli risg a gwneud penderfyniadau drwy brosesau llywodraethu corfforaethol cadarn.

### Beth fyddwn ni’n ei gyflawni yn 2026–27

Mae gwaith yr Arolygiaeth yn cael ei reoli gan nifer o fyrddau a phwyllgorau.

- Byddwn yn cynnal pedwar cyfarfod chwarterol o’r Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol, dan gadeiryddiaeth y Prif Arolygydd, i oruchwylio cyfeiriad strategol gwaith yr Arolygiaeth a’r gofrestr risg gorfforaethol, ac i graffu ar ein cyllid a’i herio.
- Byddwn yn cynnal Byrddau Cyflawni misol, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Arolygydd, i oruchwylio’r gwaith o gyflwyno ein rhaglen arolygu weithredol yn effeithiol.
- Bydd ein Grŵp Cynghori ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn i adolygu cynnydd yn erbyn ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac i fonitro metrigau allweddol yn y maes hwn.
- Bydd ein Pwyllgor Tân, Iechyd a Diogelwch yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn i adolygu polisïau, digwyddiadau a chamau gweithredu allweddol.
- Bydd ein Pwyllgor Dysgu a Datblygu yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn i adolygu cynnydd yn erbyn ein Cynllun Dysgu a Datblygu ac i nodi lle mae angen gweithredu i gefnogi gwelliant parhaus.

### Sut byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Sicrwydd parhaus o gydymffurfio â'r prif brosesau llywodraethu | Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Bob chwarter |
| | Cyfarfodydd Sicrwydd Busnes y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Dwywaith y flwyddyn |
| | Cyfarfodydd uwch noddwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Bob chwarter |
| | Arfarniad blynyddol y Prif Arolygydd | Bob blwyddyn |

## Amcan 9: Byddwn yn dangos rheolaeth ariannol gadarn ac yn darparu gwerth am arian.

### Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2026–27

- Byddwn yn parhau i gyflawni ein rhaglen arolygu a phob gweithgarwch arall o fewn y gyllideb.
- Byddwn yn cydymffurfio â chanllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar reolaeth ariannol, gan adrodd ar amrywiant ein cyllideb yn fisol, yn ogystal â chynnal ymarferion i ail-ragweld y sefyllfa bob chwarter.
- Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno yn y senedd ac yn rhoi cyfrif llawn o'n hadnoddau a'n gweithgareddau.

### Sut byddwn yn adrodd ar gynnydd ac yn ei fonitro

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Adroddiadau cyllid misol | Cyfarfodydd cyllid misol | Bob mis |
| | Adroddiadau misol ar amrywiadau cyllidol i dîm Partneriaeth Busnes Cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Bob mis |
| Diweddariadau chwarterol am y gyllideb ac ail-ragweld y sefyllfa | Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Bob chwarter |
| | Cyfarfodydd Sicrwydd Busnes y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Dwywaith y flwyddyn |
| | Cyfarfodydd uwch noddwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Bob chwarter |
| | Arfarniad blynyddol y Prif Arolygydd | Bob blwyddyn |
| Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol | Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Bob blwyddyn |

# Adran 7 Arolygiaeth abl

Byddwn yn sefydliad amlddisgyblaethol sy’n rhoi pwyslais ar werthoedd, gan ymrwymo i arfogi ein staff â’r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni ein diben. Byddwn yn gwneud ein gorau i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu. Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau’n effeithlon i sicrhau bod ein harolygiadau o’r safon uchaf bosibl ac i wella amodau unigolion sy’n cael eu cadw’n gaeth a’r ffordd y cânt eu trin.

## Amcan 10: Byddwn yn sicrhau bod gan yr Arolygiaeth weithlu arbenigol sydd â sgiliau priodol.

### Beth fyddwn ni’n ei gyflawni yn 2026–27

- Byddwn yn diweddaru’r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dysgu a Datblygu ac yn cytuno arno, a bydd y dasg o’i roi ar waith yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Dysgu a Datblygu, gan adrodd yn ôl i’r Bwrdd Cyflawni.
- Byddwn yn parhau i fynnu bod yr holl staff a’r swyddogion cyswllt sy’n derbyn ffi sy’n gweithio ar ein rhan yn cwblhau’r holl gyrsiau hyfforddi gorfodol, gan gynnwys y rhai sydd wedi’u cynllunio i gefnogi gweithio’n ddiogel mewn carchardai ac amgylcheddau tebyg. Byddwn yn monitro’r broses o gwblhau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.
- Byddwn yn defnyddio cyfarfodydd chwarterol y fforwm polisi a diwrnodau datblygu staff chwarterol i rannu gwybodaeth er mwyn llywio a gwella ein harferion arolygu’n barhaus, gan gynnwys drwy wahodd safbwyntiau allanol.
- Byddwn yn parhau i hyrwyddo adolygiadau gan gymheiriaid, cysgodi, mentora a chyfleoedd eraill i ddysgu a datblygu.
- Byddwn yn sefydlu gweithgor i ddatblygu sgiliau staff o ran defnydd o ddeallusrwydd artiffisial, archwilio cyfleoedd priodol i’w ddefnyddio, a rheoli risgiau.

### Sut byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Diweddaru’r cynllun gweithredu ar gyfer Dysgu a Datblygu | Pwyllgor Dysgu a Datblygu<br><br>Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Bob chwarter<br><br>Bob chwarter |
| Cwblhau hyfforddiant | Bwrdd Cyflawni<br><br>Pwyllgor Dysgu a Datblygu | Bob mis<br><br>Dwywaith y flwyddyn |
| Monitro anghenion dysgu a datblygu a dull gweithredu corfforaethol | Panel adolygu hyfforddiant<br><br>Pwyllgor Dysgu a Datblygu | Bob mis<br><br>Bob chwarter |

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Darparu diwrnodau datblygu | Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Bob chwarter |

## Amcan 11: Byddwn yn sicrhau bod ein staff yn cael eu cefnogi i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol.

### Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2026–27

- Bydd ein grŵp cymorth staff, sy'n darparu cymorth gan gymheiriaid i unrhyw aelod o staff sydd am ei gael (er enghraifft ar ôl bod yn dyst i ddigwyddiad oedd yn peri gofid yn ystod arolygiad), yn cyfarfod bob chwarter i drafod defnydd ac unrhyw bethau a ddysgwyd.
- Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein mewnrwyd staff i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am faterion allweddol a allai effeithio ar eu gwaith neu eu lles.
- Bydd yr holl staff yn cael amcanion a chyfarfodydd rheolaidd gyda'u rheolwr i sicrhau eu bod yn deall eu blaenoriaethau–a sut maent yn cysylltu â blaenoriaethau ehangach yr Arolygiaeth–ac yn cael cefnogaeth i'w cyflawni.

### Sut byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Nifer a natur y galwadau i'r grŵp cefnogi staff | Pwyllgor Tân, Iechyd a Diogelwch | Dwywaith y flwyddyn |
| Arolwg pobl y gwasanaeth sifil | Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Bob mis<br><br>Dwywaith y flwyddyn |
| Cyfarfodydd rheolaeth llinell | Yr holl staff | O leiaf unwaith y mis |

## Amcan 12: Byddwn yn diogelu ein staff drwy gymryd pob cam rhesymol i sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch yn y gwaith.

### Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2026–27

- Byddwn yn parhau i adolygu ein canllawiau iechyd a diogelwch a'n polisïau allweddol ar gyfer staff i adlewyrchu unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth, iechyd y cyhoedd a chyngor ehangach y llywodraeth.
- Byddwn yn cadw cofnod cywir o unrhyw ddigwyddiadau neu ddamweiniau fu bron â digwydd er mwyn eu hadolygu yng nghyfarfodydd ein Pwyllgor Tân, Iechyd a Diogelwch, gan roi unrhyw wersi a ddysgwyd ar waith i leihau'r risg y byddant yn digwydd eto.

**Sut byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno**

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Diweddaru polisïau | Pwyllgor Tân, Iechyd a Diogelwch | Dwywaith y flwyddyn |
| Adolygu digwyddiadau a damweiniau fu bron â digwydd | Pwyllgor Tân, Iechyd a Diogelwch | Dwywaith y flwyddyn |

## Amcan 13: Byddwn yn gwreiddio ein hymrwymiad i driniaeth deg a chynhwysiant ar draws yr Arolygiaeth.

**Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2026–27**

- Byddwn yn parhau i fonitro a thrafod materion allweddol sy'n ymwneud â chynhwysiant a thriniaeth deg yng nghyfarfodydd chwarterol ein Grŵp Cynghori ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Byddwn yn cwblhau adolygiad o'n Disgwyliadau ar driniaeth deg a chynhwysiant. Rydym wedi ymrwymo i'w hadolygu bob dwy flynedd, gyda'r bwriad o'u cwblhau erbyn diwedd 2026.

**Sut byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno**

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Cynllun gweithredu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth | Grŵp Cynghori ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth<br><br>Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Bob chwarter<br><br>Bob chwarter |

# Adran 8 Arolygiaeth gydweithredol

Byddwn yn cyflawni ein rhwymedigaeth statudol i gydweithio â'n partneriaid ym maes cyfiawnder troseddol, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill sy'n bartneriaid i ni, er mwyn hyrwyddo amodau'n well ar gyfer y rheini sydd mewn lleoliadau cadw. Fel aelod o'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM), byddwn yn gweithio gydag Ysgrifenyddiaeth NPM (sydd wedi'i lleoli yn Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi) a gydag aelodau'r Mecanwaith i gynyddu OPCAT (Protocol Dewisol y Cenhedloedd Unedig i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol arall) a chydlynu prosesau cydweithio.

## Amcan 14: Byddwn yn meithrin perthynas waith dda gyda swyddogaethau ac atebolrwydd clir gyda'n partneriaid arolygu.

### Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2026–27

- Byddwn yn parhau i gydweithio gydag arolygiaethau eraill, partneriaid gofal iechyd, rheoleiddwyr a'r llywodraethau datganoledig.
- Byddwn yn parhau i adolygu a diweddaru memoranda cyd-ddealltwriaeth a phrotocolau sy'n diffinio sut byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol a'r wybodaeth y byddwn yn ei rhannu.

### Sut byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddiweddaru | Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Bob chwarter |
| Adborth rhanddeiliaid o'n harolwg blynyddol | Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Blynyddol |

## Amcan 15: Byddwn yn cyfrannu'n frwd at waith y grŵp Cyd-arolygu Cyfiawnder Troseddol a'i raglen thematig.

### Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2026–27

- Bydd y Prif Arolygydd yn cadeirio'r grŵp Cyd-arolygu Cyfiawnder Troseddol (CJJI) rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2027, gan ddarparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y grŵp.
- Byddwn yn arwain y gwaith o ddatblygu cynllun busnes y CJJI ar gyfer 2027–29.
- Byddwn yn parhau i fynychu cyfarfodydd rheolaidd y CJJI, gan gynnwys cyfarfod y Prif Arolygwyr a'r grŵp datblygu.

- Byddwn yn arwain y cyd-arolygiad thematig o ba mor dda mae'r system cyfiawnder troseddol yn cefnogi pobl sydd ag anghenion cyffuriau neu alcohol.
- Byddwn yn cyfrannu'n frwd at themâu ac adroddiadau eraill sy'n tynnu sylw ar y cyd, gan gynnwys ysgwyddo rôl arweiniol lle bo hynny'n briodol, yn unol â chynllun busnes y CJJI.

**Sut byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno**

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Cadeirio cyfarfodydd y CJJI, rhannu gwybodaeth a chytuno ar gyfleoedd i weithio ar y cyd | Prif Arolygwyr CJJI | Bob chwarter |
| Datblygu cynllun busnes 2027–29 | Aelodau'r CJJI, rhanddeiliaid allweddol | Ymgynghori ar ddrafft – Ch3<br>Cwblhau cynllun – Ch4 |
| Cyfrannu at waith thematig | Grŵp datblygu'r CJJI | Bob chwarter |

## Amcan 16: Byddwn yn chwarae rhan frwd ym Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU.

**Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2026–27**

- Byddwn yn rhannu ein gwybodaeth ac yn ceisio dysgu gan aelodau eraill o Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU i gefnogi gwaith ehangach i wella amodau a chanlyniadau.

**Sut byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno**

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Rhannu gwybodaeth | Grŵp llywio'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol<br><br>Cynhadledd y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol | Bob chwarter<br><br>Blynyddol |

## Amcan 17: Byddwn yn gweithio'n adeiladol gyda'r adran sy'n ein noddi, sef y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

**Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2026–27**

- Byddwn yn cyhoeddi protocol wedi'i ddiweddaru gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n adlewyrchu ein ffyrdd sefydledig o weithio yn fwy cywir.

Bydd hyn yn cydbwyso’r angen i roi sicrwydd ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau’n effeithiol ac yn cydymffurfio â pholisïau a deddfwriaeth berthnasol, gan gadw ein hannibyniaeth ar yr un pryd. Byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithio yn unol â’r protocol hwn.
- Byddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda’n tîm nawdd a Chanolfan Arbenigedd y cyrff hyd braich i sicrhau llif priodol o wybodaeth rhwng sefydliadau, gan gadw ein hannibyniaeth ar yr un pryd.
- Byddwn yn gweithio’n agos gyda Phartneriaid Busnes ym maes Adnoddau Dynol a Chyllid i sicrhau bod ein gwaith yn y meysydd allweddol hyn yn parhau i gyd-fynd â pholisi ehangach y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan ddefnyddio eu harbenigedd lle bo angen.

**Sut byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno**

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Rhannu gwybodaeth | Cyfarfodydd y tîm nawdd | Bob mis |
| | Cyfarfodydd uwch-noddwyr | Bob mis |
| | Cyfarfodydd sicrwydd busnes | Dwywaith y flwyddyn |

## Amcan 18: Byddwn yn ceisio deall beth yw barn rhanddeiliaid amdanom ni ac yn gwella ein ffyrdd o weithio’n barhaus.

**Beth fyddwn ni’n ei gyflawni yn 2026–27**

- Byddwn yn parhau i gynnal arolygon ymadael ar ddiwedd pob arolygiad, gan ystyried yr adborth i wella ein ffyrdd o weithio’n barhaus.
- Byddwn yn parhau i fonitro’r cyfryngau cymdeithasol, y cyfryngau a materion seneddol i ddeall barn rhanddeiliaid am ein gwaith a lle gallai fod angen i ni ymateb i unrhyw bryderon neu gamsyniadau.
- Byddwn yn cyhoeddi ein harolwg blynyddol o randdeiliaid, gan ofyn am adborth gan amrywiaeth o grwpiau rhanddeiliaid ar ein perfformiad.
- Byddwn yn cynnal ymgynghoriad statudol ar ein rhaglen arolygu arfaethedig ar gyfer 2027–28, gan roi cyfle i randdeiliaid awgrymu newidiadau i’r cydbwysedd, neu feysydd gwaith thematig y dylem eu hystyried.

**Sut byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno**

| | Pwy | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Arolwg rhanddeiliaid | Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Cyfarfodydd mis Rhagfyr a mis Ionawr |
| Ymgynghoriad ar y rhaglen | Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol | Cyfarfod mis Ionawr |
| Arolygon gadael | Bwrdd Cyflawni | Bob mis |
| Monitro | Timau Polisi a Chyfathrebu | Parhaus |

# Atodiad I  Rhestr o amcanion strategol

Amcan 1: Byddwn yn darparu rhaglen o arolygiadau annibynnol sy’n cwmpasu pob un o'n meysydd cyfrifoldeb.

Amcan 2: Byddwn yn datblygu ac yn adrodd ar raglen o arolygiadau thematig sy’n sicrhau gwell canlyniadau i unigolion sy’n cael eu cadw’n gaeth.

Amcan 3: Byddwn yn parhau i sicrhau gwelliannau yn y ffordd y mae’r sefydliadau rydym yn eu harolygu yn cael eu harwain.

Amcan 4: Byddwn yn parhau i ddiogelu unigolion sy’n cael eu cadw'n gaeth.

Amcan 5: Byddwn yn parhau i ddatblygu ein harbenigedd a’n gwybodaeth ganolog ar y prif faterion sy’n effeithio ar unigolion sy’n cael eu cadw'n gaeth.

Amcan 6: Byddwn yn ymestyn cyrhaeddiad canfyddiadau ein harolygiadau i sicrhau mwy o graffu a newid cadarnhaol.

Amcan 7: Byddwn yn nodi ac yn rhannu arferion cadarnhaol i helpu i sicrhau canlyniadau gwell.

Amcan 8: Byddwn yn dangos dulliau effeithiol o reoli risg a gwneud penderfyniadau drwy brosesau llywodraethu corfforaethol cadarn.

Amcan 9: Byddwn yn dangos rheolaeth ariannol gadarn ac yn darparu gwerth am arian.

Amcan 10: Byddwn yn sicrhau bod gan yr Arolygiaeth weithlu arbenigol sydd â sgiliau priodol.

Amcan 11: Byddwn yn sicrhau bod ein staff yn cael eu cefnogi i gyflawni eu swyddogaethau’n effeithiol.

Amcan 12: Byddwn yn diogelu ein staff drwy gymryd pob cam rhesymol i sicrhau eu hiechyd a’u diogelwch yn y gwaith.

Amcan 13: Byddwn yn gwreiddio ein hymrwymiad i driniaeth deg a chynhwysiant ar draws yr Arolygiaeth.

Amcan 14: Byddwn yn meithrin perthynas waith dda gyda swyddogaethau ac atebolrwydd clir gyda’n partneriaid arolygu.

Amcan 15: Byddwn yn cyfrannu’n frwd at waith y grŵp Cyd-arolygu Cyfiawnder Troseddol a’i raglen thematig.

Amcan 16: Byddwn yn chwarae rhan frwd ym Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU.

Amcan 17: Byddwn yn gweithio’n adeiladol gyda’r adran sy'n ein noddi, sef y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Amcan 18: Byddwn yn ceisio deall beth yw barn rhanddeiliaid amdanom ni ac yn gwella ein ffyrdd o weithio’n barhaus.

Hawlfraint y Goron 2026

Mae’r adroddiad hwn, ac eithrio logos, wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3, ysgrifennwch at: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint sydd dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom isod neu drwy e-bost: hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk

Mae modd llwytho'r cyhoeddiad hwn i lawr oddi ar y we yn: Ein hadroddiadau – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi.

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi
3rd Floor
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU
Lloegr

Mae pob llun dan hawlfraint Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi, oni nodir yn wahanol.